



Adolygiad Llifogydd Arfordirol Cymru: Adroddiad Prosiect 8 – Argymhelliad 39

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Crynodeb o'r Canfyddiadau	4
Methodoleg	4
Cyd-destun yr Adolygiad	4
Y Cyd-destun Ehangach: Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydiad Arfordirol Arfaethedig	5
Crynodeb o ymatebion yr holiaduron	6
Trafod y Camau Gweithredu Arfaethedig.....	8
Casgliadau	10

Argymhelliad 39: Arolwg o Grwpiau Arfordirol Cymru a Fforwm Grwpiau Arfordirol Cymru

Cyflwyniad

Yn dilyn y llifogydd arfordirol yn hwyr ym mis Tachwedd 2013 ac yn gynnar ym mis Ionawr 2014, gofynnodd y Gweinidog dros Adnoddau Naturiol i Cyfoeth Naturiol Cymru adolygu'r achosion llifogydd. Roedd Yr Adolygiad i gael ei gyflwyno mewn dau ran mewn cydweithrediad ag Awdurdodau Rheoli Risg Cymru. Nododd ail ran yr Adolygiad 47 Argymhelliad i wella gwytnwch Cymru tuag at lifogydd arfordirol.

Pecynnwyd 30 o'r argymhellion i mewn i ddeg prosiect er mwyn adlewyrchu themâu technegol cyffredin, ac aethpwyd i'r afael â'r 17 argymhelliad arall yn unigol. Rhestrir y 10 prosiect isod:

- Prosiect 1 – Rhagweld Llifogydd a Dyluniad Arfordirol
- Prosiect 2 – Rhybudd Llifogydd a Rhagolygu
- Prosiect 3 – Gwytnwch Cymunedol
- Prosiect 4 – Ymateb Gweithredol
- Prosiect 5 – Amddiffynfeydd Arfordirol
- Prosiect 6 – Set Ddata ac Archwilio Amddiffynfeydd Arfordirol Cenedlaethol
- Prosiect 7 – Archwilio Sgiliau a Galluoedd a Rolau a Chyfrifoldebau
- Prosiect 8 – Adolygu Grwpiau Arfordirol**
- Prosiect 9 – Addasiad Arfordirol
- Prosiect 10 – Isadeiledd gwytnwch

Mae Prosiect 8 yn cael ei weithredu'n llawn trwy Argymhelliad 39. Mae'r Argymhelliad hwn yn rhoi cyfarwyddyd i Lywodraeth Cymru:

Ymgymryd ag adolygiad o Grwpiau Arfordirol Cymru a Fforwm Grwpiau Arfordirol Cymru. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys cysylltiadau a pherthnasau gyda grwpiau tebyg eraill sydd â rôl mewn rheoli perygl llifogydd a pheryglon erydu arfordirol.

Dylai'r adolygiad hwn nodi opsiynau i ddarparu rheoli perygl llifogydd a llifogydd arfordirol yn fwy effeithiol ac yn fwy effeithlon.

Grwpiau Arfordirol Cymru

Dyma'r pum Grŵp Arfordirol yng Nghymru:

- Grŵp Arfordirol Bae Ceredigion
- Grŵp Peirianeg Arfordirol Abertawe a Bae Caerfyrddin
- Grŵp Arfordirol Strategol Aber Hafren (Cymru a Lloegr)
- Grŵp Arfordirol Bae Lerpwl (Cymru a Lloegr)
- Grŵp Arfordirol Ynys Enlli i Ben y Gogarth

Mae Cadeiryddion y Grwpiau Arfordirol yn cwrdd trwy Fforwm Grwpiau Arfordirol Cymru. Mae gan Lywodraeth Cymru gynrychiolaeth ar y Fforwm ac yn gweithredu fel ysgrifenyddiaeth.

Crynodeb o'r Canfyddiadau

Yn dilyn yr adolygiad hwn o Grwpiau Arfordirol Cymru a'r Fforwm, teimla Llywodraeth Cymru bod ganddynt rôl allweddol wrth symud ymlaen o fewn y llywodraethu ehangach o reoli llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Eglura adroddiad yr adolygiad y rôl barhaus hon trwy gyfres o gamau gweithredu, ac fe'i cytunwyd yn Fforwm Grwpiau Arfordirol Cymru ar 18 Mai 2016, a thrwy hynny marciwyd cwblhau Prosiect 8 / Argymhelliad 39.

Methodoleg

Ymgwymerwyd â'r adolygiad mewn 3 cham:

Cam 1: Anfonwyd holiadur i 15 Awdurdod Morwrol Lleol Cymru (MLA), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) yn ystod mis Mehefin 2015 a derbyniwyd ymatebion erbyn mis Gorffennaf 2015. Fel rhan o'r ymarfer hwn, anfonwyd cais am Gylch Gorchwyl (GG) pob Grŵp Arfordirol ym mis Gorffennaf 2015.

Cam 2: Cyfweiliadau anffurfiol gydag unigolion o sefydliadau dethol gan gynnwys CNC a WLGA.

Cam 3: Ymgwymerwyd â dadansoddiad o grynodedb ymatebion yr holiaduron, GG, ac adolygiad llenyddiaeth ehangach o lywodraethu rheoli perygl llifogydd arfordirol yng Nghymru yn ystod Gaeaf 2015 a Gwanwyn 2016.

Cyd-destun yr Adolygiad

Cynhwysa aelodaeth y Grwpiau Arfordirol ALLau gyda CNC yn bennaf, ond cynrychiolir grwpiau diddordeb eraill weithiau. Cadeirir y Grwpiau gan Awdurdodau Morwrol Lleol Cymru ac felly maen nhw'n atebol i'r Awdurdodau hyn a'r aelod-sefydliadau hynny sy'n cyfrannu tuag at weithrediad y grŵp. Mae gan Lywodraeth Cymru statws sylwedydd ar bum Grŵp Arfordirol Cymru ac nid ydynt yn talu cyfraniad uniongyrchol tuag at eu gweithrediad trwy

gyfraddau tanysgrifio, er bod cyfarwyddyd strategol a chymorth ariannol ar gyfer rhaglen waith y Grŵp wedi digwydd yn y gorffennol. Mae gan CNC statws aelodaeth cyfrannol ar o leiaf dau o'r Grwpiau (Ynys Enlli i Ben y Gogarth a Grŵp Peirianeg Arfordirol Abertawe a Bae Caerfyrddin). Rhan sylweddol o weithrediad y Grwpiau Arfordirol yw cynyddu cydweithrediad, yr arfer gorau, a rhannu data rhwng yr aelodaeth gyfansoddol. Yn amlwg bydd y gwaith hwn yn parhau fel sy'n gweddu i anghenion yr aelodaeth.

Nid yw'r adolygiad hwn yn ceisio gorfodi newidiadau i weithrediadau'r Grwpiau Arfordirol ond yn hytrach mae'n ceisio diffinio rôl y Grwpiau a'r Fforwm Arfordirol (lle cynrychiolir Llywodraeth Cymru'n uniongyrchol) o fewn y llywodraethiant ehangach o amgylch y sector rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Trwy'r cyd-destun hwn y gwneir yr adolygiad hwn a'r camau gweithredu arfaethedig.

Y Cyd-destun Ehangach: Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydiad Arfordirol Arfaethedig

Cynhwysa Deddf yr Amgylchedd 2016 ddarpariaeth (dan Adran 81, Rhan 7) sy'n newid Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i alluogi diddymu'r Pwyllgor presennol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd Cymru a sefydlu pwyllgor newydd a elwir yn Bwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Bydd y Pwyllgor newydd yn darparu cyngor ar reoli perygl llifogydd o'r prif afonydd, dŵr wyneb, cyrsiau dŵr cyffredin, cronfeydd dŵr a'r môr yn ogystal ag erydu arfordirol i Weinidog Cymru. Bydd rheoliadau newydd yn cael eu sefydlu yn hwyrach eleni ynglŷn ag aelodaeth a gweinyddiaeth.

Bwriedir i'r Pwyllgor newydd hwn gyfarfod am y tro cyntaf yn Hydref 2016 a bydd yn ganolbwynt ar gyfer holl faterion ar gyngor ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol i Weinidog Cymru a Llywodraeth Cymru. Felly, disgwylir i'r Pwyllgor roi mewnbwn allweddol i gyfeiriad strategol rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd.

Er mwyn i'r Pwyllgor fod yn effeithiol, mae'n rhaid cael strwythurau cefnogi yn eu lle sy'n galluogi:

- a) gwybodaeth gywir a pherthnasol i gael ei fwydo gan ymarferwyr a sefydliadau ar lefel weithredol; a
- b) lledaenu'r cyfeiriad strategol cenedlaethol yn effeithiol i sefydliadau ac ymarferwyr.

Bydd materion arfordirol yn elfen allweddol yng nghyfrifoldebau'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol, a theimla Llywodraeth Cymru bod y Fforwm Arfordirol mewn sefyllfa ddelfrydol i weithredu fel cyswllt rhwng y Grwpiau Arfordirol a'r Pwyllgor.

Crynodeb o ymatebion yr holiaduron

Anfonwyd yr holiadur at y 15 Awdurdod Morwrol Lleol (MLA). O'r 15 hyn, derbyniwyd ymatebion gan 10 awdurdod yn ogystal â WLGA a CNC. Derbyniwyd ymatebion gan swyddogion awdurdod lleol a oedd yn cynrychioli aelodaeth o bob un o 5 Grŵp Arfordirol Cymru.

Holodd yr holiadur 11 cwestiwn a restrir isod, ynghyd â chrynodeb o'r ymatebion.

Beth oedd prif rol(au) r grwpiau arfordirol hyd yn hyn yn eich barn chi?

- A. Datganodd mwyafrif yr ymatebwyr mai rôl allweddol y grwpiau arfordirol yn hanesyddol oedd cynhyrchu ail iteriad y Cynlluniau Rheoli Traethlin (SMP). Rhestrwyd cydweithio a rhannu gwybodaeth a phrofiadau rhwng Awdurdodau Rheoli Risg arfordirol yn ogystal â chefnogi Canolfan Monitro Arfordir Cymru (WCMC) fel rolau allweddol eraill.

A ydych chi'n teimlo bydd angen y Grwpiau Arfordirol yn y dyfodol? Os ydych, nodwch pam.

Nododd yr holl ymatebwyr y bydd angen y grwpiau arfordirol yn y dyfodol.

Y prif resymau a nodwyd oedd:

- Gweithredu a Monitro'r SMP trwy ddull rhanbarthol
- Parhau i gydweithio a rhannu gwybodaeth ac arfer gorau. Gwnaed y pwynt fod gan MLA lefelau amrywiol o allu a phrofiad mewn ymarfer arfordirol.
- Hyrwyddo darvoudion maint yn ystod caffael arolygo ac/neu waith SMP pellach;
- Er mwyn goruchwyllo monitro'r arfordir.

Beth fydd y rol(au) allweddol yn y Grwpiau Arfordirol yn eich barn chi?

Derbyniwyd atebion tebyg i'r cwestiwn blaenorol yn gyffredinol, ond gyda'r pwyntiau ychwanegol canlynol:

- Dylai grwpiau arfordirol ddarparu gwybodaeth a chyngor ar ddatblygu polisïau ar faterion arfordirol i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys codi materion sy'n peri pryder.
- Darparu llwybr i ymgymryd â chydweithredu trawsffiniol lle bo angen.

Darparwch esiamplau o adegau mae'r Grŵp Arfordirol wedi bod yn effeithiol os gwelwch yn dda.

Cyfeiriodd mwyafrif yr ymatebwyr at:

- Cynhyrchu'r SMP 2;
- Monitro rhanbarthol o'r draethlin, yn cynnwys cefnogi'r WCMC i ddatblygu Manyleb Genedlaethol i Fonitro.

Darparwch esiamplau o adegau y gallai'r Grŵp Arfordirol fod wedi bod yn fwy effeithiol os gwelwch yn dda.

Nododd rhai ymatebwyr y byddai lledaenu polisïau'r SMP a'r rhesymau y tu ôl iddynt wedi gallu bod yn fwy effeithiol. Mater arall a nodwyd gan sawl un oedd gallu swyddogion ALI i fynychu ac / neu ymrwymo amser. Nodwyd bod gallu Cadeirydd i neilltuo amser i grŵp yn hanfodol ar gyfer effeithlonrwydd y grŵp hwnnw.

Darparwch esiamplau o adegau y mae Fforwm Arfordirol Cymru wedi bod yn effeithiol os gwelwch yn dda.

Teimlodd rhan fwyaf yr ymatebwyr fod y fforwm yn dod â'r holl awdurdodau lleol ynghyd i drafod yn weddol effeithiol. Teimlodd y rhan fwyaf, ond nid pawb, fod y fforwm yn dda am ledaenu arweiniad LIC ond nad oedd ei botensial yn cael ei gyflawni.

Darparwch esiamplau o adegau y buasai Fforwm Arfordirol Cymru wedi gallu bod yn fwy effeithiol os gwelwch yn dda

Nododd nifer o ymatebwyr y buasai'r fforwm wedi gallu bod yn fwy effeithiol wrth ledaenu gweithrediad cyson ar gyfer cynhyrchu SMP. Teimlodd y rhan fwyaf, ond nid pawb, fod y fforwm yn dda am ledaenu arweiniad LIC ond nad oedd ei botensial yn cael ei gyflawni. Teimlodd rhai bod angen aelodaeth ehangach efallai. Teimlwyd hefyd y gallai'r fforwm gael mwy o rôl wrth gydlyn monitro'r arfordir a rôl cymorth mwy mewn unrhyw ymateb i lifogydd arfordirol cenedlaethol.

Gyda pha sefydliadau / cyrff eraill y dylai'r Grŵp Arfordirol gael cysylltiad allweddol â nhw er mwyn bod yn effeithiol yn eich barn chi?

Ydy'r gynrychiolaeth bresennol o fewn y grŵp arfordirol yn caniatáu i'r rolau a ddiffinnir uchod gael eu cyflawni'n effeithiol? Os nad ydynt, eglurwch sut byddai newid y gynrychiolaeth yn gallu helpu'r grŵp i wella ei gyflawniad.

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen mwy o gysylltiadau a chynrychiolaeth ehangach gyda sefydliadau/cyrff eraill. Teimlwyd bod grwpiau arfordirol angen arweiniad cryfach gan Lywodraeth Cymru gyda mwy o gynrychiolaeth gan LC, efallai drwy'r Fforwm. Sefydliadau/cyrff eraill a nodwyd oedd:

- CNC
- Tirfeddianwyr yn cynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Network Rail;
- WCMC (unwaith y diffinnir ei rôl);
- Asiantaethau Priffordd;
- Swyddogion ALI sy'n gyfrifol am fioamrywiaeth a Llwybr Arfordir Cymru.

Ydych chi'n teimlo bod y gyfradd tanysgrifio flynyddol ar gyfer y grŵp arfordirol wedi'i osod ar y lefel cywir? Os nad yw, nodwch a ddylai fod yn uwch neu'n is a'r rhesymau dros hynny os gwelwch yn dda.

Gwelir yn glir o'r atebion bod cyfraddau tanysgrifio'n amrywio dros grwpiau arfordirol gwahanol. Ymddengys mai Grŵp Arfordirol Abertawe a Bae Caerfyrddin sydd â'r

gyfradd uchaf gan eu bod yn talu £6,500 y flwyddyn (er cafodd hyn ei hepgor y llynedd oherwydd gwarged sylweddol). Mae gan grŵp arfordirol Aber Hafren gyfradd sylweddol llai o £600, ac mae gan grŵp arfordirol Bae Lerpwl gyfradd lai fyth o £250 y flwyddyn. Ymddengys o'r ymatebion mai'r ALI sy'n gosod ac yn talu'r tanysgrifiad a'u bod yn weddol fodlon gyda'r cyfraddau (er nad yw hyn yn gyffredinol oherwydd nododd un ymatebwr ymddengys i'r grwpiau gael gwarged 'nad ydynt yn siŵr beth i'w wneud ag ef'). Ymddengys mai cyfyngedig yw ein cylch gwaith i ddylanwadu ar y gyfradd tanysgrifio. Efallai bod angen cynnal archwiliad i benderfynu ar gyfraddau penodol ac ar gyfer beth yn union y defnyddir y cyfraddau.

Ychwanegwch unrhyw sylwadau eraill a allai fod yn ddefnyddiol tra'n adolygu'r Grwpiau Arfordirol os gwelwch yn dda.

Teimlodd rhai ymatebwyr fod yna ormod o fforymau / grwpiau rheoli llifogydd yng Nghymru o bosib, er ei fod yn bwysig nad yw materion arfordirol yn cael eu gwthio o'r neilltu mewn unrhyw ymarfer moderneiddio. Nodwyd bod effeithiolrwydd y grwpiau a'r fforymau'n ddibynnol ar yr amser a roddir gan swyddogion awdurdod lleol, a all ddod yn brinnach gydag ail-drefnu a llymder yr awdurdodau lleol.

Trafod y Camau Gweithredu Arfaethedig

Amlygodd atebion yr holiaduron a'r cyfweiliadau y farn y byddai'r Grwpiau Arfordirol a'r Fforwm yn elwa ar gyfarwyddyd strategol effeithiol gan Lywodraeth Cymru. Gyda sefydlu'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn hwyrach eleni, mae cyfle yn awr i'r Grwpiau a'r Fforwm Arfordirol gymryd rhan ffurfiol o fewn strwythur llywodraethu ehangach yn ymwneud â rheoli llifogydd ac erydu arfordirol. Cynigir bod y Fforwm Arfordirol yn cael ei gynrychioli ar y Pwyllgor newydd ac yn gweithredu fel y brif sianel rhyngddo a'r Grwpiau Arfordirol. Byddai'r rôl yn cynnwys lledaenu barn strategol y Pwyllgor a'r Gweinidog i'r Grwpiau, tra hefyd yn darparu cyngor ac arweiniad allweddol i'r Pwyllgor ar faterion arfordirol.

Cam Gweithredu Arfaethedig 1: Bod y Fforwm a'r Grwpiau Arfordirol yn ffurfio rhan o strwythur llywodraethu ehangach ynglŷn â'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol a gynlluniwyd. Byddai hyn yn cynnwys y Grwpiau Arfordirol yn arwain y Pwyllgor a'r Gweinidog, tra'n darparu gwybodaeth a chyngor i'r Pwyllgor trwy'r Fforwm Arfordirol.

Mae gan y Grwpiau Arfordirol amcanion strategol o fewn eu cylch gorchwyl yn barod, ac mae'n debygol y bydd y rhain yn gorgyffwrdd ag amcanion strategol cenedlaethol y Gweinidog a'r Pwyllgor newydd. Nodwyd bod cynhyrchu'r Cynlluniau Rheoli Traethlin (SMP2) wedi bod yn gamp sylweddol i'r Grwpiau Arfordirol - yn yr ymatebion i'r holiadur a'r cyfweiliadau. Nawr bod y gwaith wedi'i gwblhau, rhaid i'r ffocws parhaus fod ar weithredu'r SMP ac yn benodol, goresgyn yr effeithiau economaidd-gymdeithasol sydd eisoes wedi codi. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Chyngor Sir Gwynedd ac yn ymchwilio i gymuned Fairbourne gyda'r bwriad o wella ymgysylltiad â chymunedau sy'n cael eu heffeithio a datblygu 'pecyn offer' ar gyfer yr addasu a fydd yn angenrheidiol mewn nifer o gymunedau arfordirol. Bydd Llywodraeth Cymru yn croesawu unrhyw gefnogaeth gan y Grwpiau Arfordirol.

Yn yr un modd, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio ail-sefydlu Canolfan Monitro Arfordirol Cymru (WCMC). Mae'r Grwpiau Arfordirol eisoes yn cynnwys cyfeiriad at weithio gyda'r WCMC yn eu Cylch Gorchwyl, ond awgrymir bod hwn hefyd yn flaenoriaeth strategol.

Cam Gweithredu Arfaethedig 2: Grwpiau Arfordirol yn ceisio cyfrannu at yr amcanion strategol cenedlaethol hyn:

- a) *Cyfrannu tuag at ddatblygu pecyn offer ar gyfer addasu cymunedau arfordirol i weithredu SMP gan gydweithio ag Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru a CNC;*
- b) *Gweithio gyda Chanolfan Monitro Arfordirol Cymru a ailsefydlwyd i ddarparu gwasanaeth effeithiol i Awdurdodau Rheoli Perygl a Llywodraeth Cymru.*

Mae'n amlwg o atebion yr holiadur a'r cyfweiliadau bod diffyg cysondeb rhwng y cylch gorchwyl a'r Grwpiau Arfordirol. Fel y soniwyd eisoes, mae gan bob grŵp ei gyfrifoldeb dros ei aelodaeth ei hun. Fodd bynnag, pe bai'r Grwpiau a'r Fforwm yn cymryd lle allweddol o fewn llywodraethiant ehangach y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol, awgrymir bod lefel o gysondeb yn cael ei annog gan y Fforwm Arfordirol. Mae hyn yn benodol wir am y gyfradd tanysgrifio. Er y derbynnir efallai fod gan wahanol Grwpiau Arfordirol raglenni gwaith gwahanol, byddai'n fuddiol i bob Grŵp Arfordirol gael methodoleg safonol o gyfrifo'r costau hyn a'r cyfraddau tanysgrifio dilynol. Yn yr un modd, tuedda'r Grwpiau Arfordirol i gael gwahanol sefydliadau'n aelodau sy'n cyfrannu'n llawn neu aelodau gwadd. Awgrymir felly bod y Fforwm yn annog y Grwpiau i gymharu ac adolygu eu haelodaeth er mwyn sicrhau eu bod yn addas.

Cam Gweithredu Arfaethedig 3: Bod y Fforwm Arfordirol yn safoni cylch gorchwyl y Grwpiau Arfordirol, gan gynnwys annog cysondeb wrth gyfrifo cyfraddau tanysgrifio a sefydliadau aelodaeth.

Casgliadau

Cynigir y camau gweithredu canlynol i'r Fforwm Arfordirol gytuno arnynt.

Cam Gweithredu Arfaethedig 1: Grwpiau Arfordirol a'r Fforwm i fod yn rhan o'r strwythur llywodraethiant ehangach o amgylch y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol arfaethedig. Byddai hyn yn broses ddwyffordd, gyda'r Grwpiau Arfordirol yn darparu gwybodaeth a chyngor, tra'n ystyried blaenoriaethau strategol y Pwyllgor.

Cam Gweithredu Arfaethedig 2: Grwpiau Arfordirol i gyfrannu tuag at yr amcanion strategol cenedlaethol canlynol:

- a) **Cyfrannu tuag at ddatblygu pecyn offer ar gyfer addasu cymunedau arfordirol i weithredu SMP gan gydweithio ag Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru a CNC;**
- b) **Gweithio gyda Chanolfan Monitro Arfordirol Cymru a ailsefydlwyd i alluogi coladu a safoni data monitro arfordir Cymru.**

Cam Gweithredu Arfaethedig 3: Bod y Fforwm Arfordirol yn safoni cylch gorchwyl y Grwpiau Arfordirol, gan gynnwys annog cysondeb wrth gyfrifo cyfraddau tanysgrifio a sefydliadau aelodaeth.